OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 251 (Cy. 65)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *8 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**) ac adrannau 87 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mawrth 2021.

### Diwygio Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9(1), yn lle "mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar 31 Mawrth 2021" rhodder "mae'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 2, 3, 4, 6, 7 ac 8 yn peidio â chael effaith ar 30 Medi 2021**"**.

(3) Yn rheoliad 10, yn lle "31 Mawrth 2021" rhodder "30 Medi 2021".

(**1**) 2002 p. 38 ("Deddf 2002"). Gweler y diffiniadau o "regulations", "appropriate Minister" a "the Assembly" yn adran 144(1) o Ddeddf 2002. Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**2**) 2014 dccc 4; gweler y diffiniad o "rheoliadau" yn adran 197(1).
(**3**) O.S. 2020/1082 (Cy. 244).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

5 Mawrth 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn dyddiad dod i ben Rheoliadau 2020 mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

Prif effaith y Rheoliadau hyn yw diwygio dyddiad dod i ben rheoliadau 2, 3, 4, 6, 7 ac 8 o Reoliadau 2020 drwy roi 30 Medi 2021 yn lle 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn golygu bod y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2, 3, 4, 6, 7 ac 8 o Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2021.

Effaith eilaidd y Rheoliadau hyn yw na fydd y diwygiadau a wneir gan reoliad 5 o Reoliadau 2020 yn dod i ben mwyach ar 31 Mawrth 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.